## Trafnidiaeth a Theithio Llesol

| Amser ar gyfer y sesiwn | Lleoliad: | Cyd-destun: |
|---|---|---|
| Gwers – 60 munud<br><br>Gweithgaredd - 60 i 90 munud | Ystafell ddosbarth a thir yr ysgol | Mae'r wers hon yn archwilio traffig a'i effaith ar ansawdd yr aer:<br>• gwahanol safbwyntiau am draffig wrth giât yr ysgol;<br>• pam fod hyn yn broblem a sut y gall teithio llesol helpu. |

## NODIADAU CYNLLUN GWERS

**<u>Gwybodaeth ar gyfer y cynllun gwers a awgrymir:</u>**

**Mae'r cynnwys yn cyfeirio at Anodd Dysgu Teithio Llesol y *Walk Wheel Cycle Trust, A yw traffig yn broblem tu allan i'n hysgol ni?* Tudalennau 5 i 10 (60 munud)**

https://www.walkwheelcycletrust.org.uk/media/11405/wel_sustrans-active-journey-lndc_digital.pdf

1. <u>(10 munud) Beth yw traffig?</u>

Gofynnwch i'r dysgwyr gau eu llygaid a meddwl am y gair 'traffig'. Meddyliwch am…

- Sut mae 'traffig' yn edrych?
- Sut mae 'traffig' yn swnio?
- Sut mae 'traffig' yn ogleuo?

GWEITHGAREDD TRAFFIG YSGOL

Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu hatebion gyda gweddill y dosbarth.

2. (15 munud) Rhwbiadau llygredd aer

**<u>Mae'r cynnwys yn cyfeirio at Ymchwiliad Iard Ysgol ar Lygredd Aer y *Walk Wheel Cycle Trust* (30 munud)</u>**

**Amcanion y Wers:** Ymchwilio i lygredd aer o amgylch iard ein hysgol.


Gan ddefnyddio cerdyn gwyn, byddwn yn rhannu'n bartneriaid neu'n grwpiau i chwilio am ronynnau o lygredd yn yr aer ac ar yr arwynebau o amgylch iard ein hysgol.

**Beth fyddwn ni ei angen?**

Cerdyn gwyn, pensil

**Dull:**

1. Plygwch y cerdyn gwyn yn 4 rhan neu torrwch 4 darn o gerdyn gwyn.
2. Cerddwch o amgylch yr iard yn chwilio am 4 ardal rydych chi'n meddwl fydd wedi dod i gysylltiad â llygredd aer (meddyliwch am y mannau sydd agosaf i'r lle mae ceir yn pasio).
3. Rhowch rif ar bob rhan o gerdyn ac ysgrifennwch enw/nodwedd yr ardal ar bob rhan i'ch atgoffa chi pa ardal yw pa un.
4. Chwiliwch am rywbeth solet i'w ymchwilio ym mhob ardal. Rhwbiwch ochr wen y cerdyn yn erbyn yr eitem solet, gan geisio rhwbio i un cyfeiriad. Peidiwch â rhwbio'n rhy galed rhag ofn i chi dorri'r cerdyn.
5. Gwnewch hyn eto ar gyfer pob rhan o'r cerdyn.
6. Pan fyddwch chi wedi rhwbio pob rhan o'r cerdyn, defnyddiwch bensil i dynnu llinellau drwy bob rhan. Tynnwch linellau llorweddol a fertigol i lunio grid.
7. Defnyddiwch y grid i gymharu pa ardal oedd â'r mwyaf o lygredd aer. Dyma'r ardal sydd â'r nifer mwyaf o sgwariau budr. **Allwch chi gyfrifo'r canran sydd wedi'i orchuddio â gronynnau llygredd o'r gridiau?**



3. (10 munud) Sefyllfa draffig ein hysgol. Ydi hyn yn broblem?

Mewn grwpiau, trafodwch sefyllfa draffig eich ysgol a rhowch adborth i'r dosbarth.

Cychwyn brawddegau i helpu gyda'r dasg hon.

***Yn fy marn i, mae traffig y tu allan i giât ein hysgol yn broblem oherwydd______________________.***

***Un syniad i leihau'r traffig y tu allan i giât ein hysgol ydi ________________________________.***

***Fel arfer, rydw i'n teithio i'r ysgol mewn/ar ________________ ond i leihau traffig, fe allwn i ______________.***

4. (20 munud) Cyfweliadau

Mewn grwpiau, dewiswch pwy o'r rhestr hon o gymuned eich ysgol y byddwch chi'n eu cyfweld i holi am draffig:

• Staff • Rhieni • Trigolion Lleol • Person Lolipop• Perchnogion Busnes

Dewiswch rai o'r cwestiynau hyn i'w gofyn, neu meddyliwch am eich cwestiynau eich hun:

C1 Ydi traffig yn broblem y tu allan i'n hysgol ni?

C2 Pam fod/nad ydi traffig yn broblem y tu allan i'n hysgol ni?

C3 Pa amser o'r dydd mae'r traffig ar ei brysuraf y tu allan i'n hysgol ni?

C4 Beth ydych chi'n meddwl y gallwn ni ei wneud i leihau'r traffig y tu allan i'n hysgol ni?

C5 Sut ydych chi'n teithio i'r ysgol?

5. Trafodwch ganfyddiadau eich cyfweliad mewn grwpiau (10 munud)

6. Ysgrifennwch erthygl papur newydd am draffig yn eich ysgol (10 munud)

***Teitl yr Adroddiad: _______________________***

***Cyflwyniad: Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r _______________ y tu allan i'n hysgol ni.***

***Paragraff 1: Mae traffig yn broblem oherwydd ______________________.***

***Mae'r traffig ar ei brysuraf am _____________.***

***Llun/Diagram: Allwch chi dynnu llun o'r traffig y tu allan i'n hysgol ni?***

***Paragraff 2: Gallwn leihau'r traffig y tu allan i'n hysgol drwy ___________.***

***Paragraff olaf: Tybed allwch chi ein helpu ni i leihau'r traffig y tu allan i'n hysgol drwy __________________________________?***

***Enw:__________________________________***

## Gweithgaredd Ymestyn

## Cyfrif Traffig

**Traffic Count.**

Mewn ardal lle gall y disgyblion weld y ffordd, cyfrwch y traffig a'r mathau o draffig sy'n pasio dros gyfnod o amser mewn tabl cyfrif.

Gallwch ddefnyddio'r daflen waith Cyfrif Traffig i wneud hyn, neu gall y disgyblion lunio eu tabl cyfrif neu bictogram eu hunain.

## Gweithgaredd Milltir y Dydd a Chwarae

**Milltir y Dydd**

Mae hon yn weithgaredd poblogaidd a rheolaidd mewn lleoliadau, ac mae yna Drac Milltir y Dydd wedi'i lunio'n barod yn aml. I rannu dull eich ysgol chi o gymryd rhan yn y cynllun Milltir y Dydd, gallwch gysylltu ag ysgolion a meithrinfeydd sy'n gwneud cryn argraff gyda Milltir y Dydd.

Gall dim ond 15 munud o weithgarwch y dydd roi hwb i iechyd a hapusrwydd y plant a'u gallu i ganolbwyntio. Cysylltwch â'r ysgolion a'r meithrinfeydd sy'n gwneud cryn argraff gyda Milltir y Dydd https://www.thedailymile.co.uk/

I ddatblygu ar hyn, ar y Diwrnod Thema Trafnidiaeth a Theithio Llesol, gallai milltir y dydd eich ysgol gynnwys hyrwyddo hawliau tramwy cyhoeddus yn yr ardal leol o amgylch eich ysgol.

**Bod Allan yn yr Awyr Agored a Chwarae – Y Cod Cefn Gwlad**

Does yna ddim gweithgaredd chwarae uniongyrchol heddiw wrth hyrwyddo milltir y dydd a'r negeseuon allweddol am chwarae allan yn yr awyr agored. Mae'n wych bod gennym ni gymaint o fannau awyr agored ar gael i ni, ond mae'n rhaid i ni fod yn ystyriol o'r mannau rydym ni'n eu defnyddio. Mae yna hawliau tramwy cyhoeddus mewn rhai ardaloedd sy'n eiddo i sefydliadau eraill ar wahân i'r Cyngor. Mae'n bwysig ei bod ni'n parchu pob man ac yn dilyn y Cod Cefn Gwlad. Dyma eich canllaw ar gyfer mwynhau ein parciau a'n dyfrffyrdd, ein harfordir a'n cefn gwlad.